**Rhif: WG48435**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Newidiadau i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979

Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ynglŷn â Newidiadau i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 oherwydd diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 a wnaed gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ac Ymateb Llywodraeth Cymru

12 Hydref 2023

## Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ynglŷn â newidiadau i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 (“Rheoliadau 1979”). Roedd y newidiadau hyn yn angenrheidiol i ategu’r diwygiadau a wnaed i Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn rhinwedd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (“Deddf 2023”), sy’n caniatáu ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo, ac mae’n galluogi diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo a roddwyd eisoes. Mae’r newidiadau hyn i Reoliadau 1979 yn angenrheidiol er mwyn i’r diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 weithredu’n effeithiol.

Mae’r ddogfen hon yn crynhoi’r ymatebion a gafwyd i’r ymgynghoriad a dengys sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb iddynt. Ni chynigir barn fanwl ynglŷn â sylwadau unigol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a neilltuodd amser i gyflwyno’u barn.

## Camau i’w Cymryd

Mae’r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o’r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Polisi Adnoddau Coedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach,
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
Ebost: PolisiCoedwigaeth.ForestryPolicy@llyw.cymru

## Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o’r ymateb a chopïau o’r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i’r dogfennau ymgynghori: Newidiadau i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cynnwys........................................................................................................ 3
Cyflwyniad…………..………………………………………………………………..4
Ymgynghoriad……………………………………………………………………….4
Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb Llywodraeth Cymru………………………………5
Y Camau Nesaf…..……………………………………………………..…………11

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("Deddf 2023") Gydsyniad Brenhinol a daeth yn gyfraith ar 17 Awst 2023. Roedd hyn yn cynnwys darpariaethau coedwigaeth a oedd yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 ("Deddf 1967"), gan ddarparu pwerau i ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo, ac i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo a roddwyd eisoes. Y bwriad yw atal cwympo coed a fyddai'n groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall, a darparu amddiffyniad pellach i fywyd gwyllt a'r amgylchedd yn ystod gwaith cwympo coed.

Mae Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 ("Rheoliadau 1979") yn darparu ar gyfer materion gweithdrefnol amrywiol dan Ddeddf 1967, ac o'r herwydd mae angen eu diwygio i ategu'r diwygiadau newydd a wnaed i'r Ddeddf honno.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r newidiadau i Reoliadau 1979. Bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r ymatebion hyn i lywio'r camau nesaf o ran bwrw ymlaen â rheoliadau diwygio newydd; teitl dros dro y rheoliadau hyn yw Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023.

## Ymgynghoriad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad er mwyn cadarnhau'r manylion angenrheidiol mewn is-ddeddfwriaeth (newidiadau i Reoliadau 1979) fel y gellir rhoi darpariaethau coedwigaeth Deddf 2023 ar waith. Mae'r diwygiadau coedwigaeth arfaethedig mewn perthynas â Deddf 1967 eisoes wedi bod yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) a gynhaliwyd ddiwedd 2020. Rhwng 11 Awst 2023 ac 8 Medi 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i Reoliadau 1979. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn fyrrach nag arfer gan ei fod wedi cael ei dargedu at gynrychiolwyr rhanddeiliaid perthnasol yn unig. Trwy wneud hyn, gellir diwygio'r rheoliadau ynghynt, gan roi amser ychwanegol i'r sector coedwigaeth baratoi ar gyfer y newidiadau newydd i Ddeddf 1967. Byddai ymgynghoriad mwy maith wedi lleihau'r cyfnod paratoi.

Cafodd yr ymgynghoriad ei dargedu at y grŵp rhanddeiliaid dethol a oedd wedi bod yn gysylltiedig eisoes â datblygu'r darpariaethau coedwigaeth. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid ehangach, sef 5 o randdeiliaid a oedd yn cynrychioli coedwigaeth, 6 a oedd yn cynrychioli'r sector tir a 4 a oedd yn cynrychioli'r sector cadwraeth. Fodd bynnag, ni chafodd y sector coedwigaeth ehangach na'r cyhoedd eu hatal rhag cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Roedd cynigion yr ymgynghoriad yn archwilio 3 mater yn ymwneud â'r cyfnodau penodedig a'r dull arfaethedig, a oedd yn deillio o'r diwygiadau i Ddeddf 1967. Rhan fechan yn unig o ddarpariaethau coedwigaeth ehangach Deddf 2023 yw'r materion hyn; cynhaliwyd ymgynghoriad ynglŷn â'r darpariaethau coedwigaeth ehangach yn flaenorol.

Rhoddwyd dogfen ymgynghori Gymraeg a Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â'r cyfle i ymateb ar-lein, trwy e-bost neu trwy'r post, ar 6 Medi cynhaliodd Llywodraeth Cymru sesiwn ymgynghori â rhanddeiliaid trwy gyfrwng Microsoft Teams. Yn ystod y sesiwn hon cafwyd trosolwg o'r amserlen a'r rhesymau dros gynnal yr ymgynghoriad, esboniwyd y cwestiynau ymgynghori a chafwyd cyfle i drafod.

## Crynodeb o'r Ymatebion

Cafodd Llywodraeth Cymru 9 o ymatebion i'r ymgynghoriad a dymuna ddiolch i bawb a ymatebodd.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau ymgynghori. Nid yw'n ceisio cofnodi pob pwynt a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr. Y bwriad yw cyflwyno'r themâu a'r materion hollbwysig a ddaw i'r amlwg dro ar ôl tro, ynghyd â chyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru.

Gofynnwyd 6 chwestiwn yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y 3 chwestiwn cyntaf yn ymwneud â'r 4 achos gweithdrefnol a nodir yn narpariaethau coedwigaeth Deddf 2023 – sef achosion sy'n peri bod angen diwygio Rheoliadau 1979. Roedd dau gwestiwn yn ymwneud ag effaith y diwygiadau arfaethedig ar y Gymraeg. Yn y cwestiwn olaf, gwahoddwyd yr ymatebwyr i sôn am unrhyw faterion perthnasol eraill. Nid atebwyd yr holl gwestiynau gan bob un o'r ymatebwyr. Roedd llawer o'r materion a grybwyllwyd yn y cwestiwn olaf yn ymwneud â darpariaethau coedwigaeth Deddf 2023 sy'n diwygio Deddf 1967, yn hytrach na newidiadau i Reoliadau 1979, sef testun yr ymgynghoriad hwn, er bod yna gysylltiad agos rhwng y ddau beth.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r cyfnod penodedig fod yn 1 mis yn unol â'r gofynion presennol dan Ddeddf Coedwigaeth 1967? Os na, pa gyfnod penodedig ydych chi'n teimlo sy'n addas a pham?**

Mae a wnelo hyn â'r amser a roddir i awdurdodau lleol sy'n cyflwyno Gorchmynion Cadw Coed (TPO) ("awdurdod(au) TPO") i ymateb i hysbysiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ysgrifenedig os yw'r awdurdod TPO yn dymuno gwrthwynebu cynigion i ddiwygio trwydded cwympo coed trwy gydgytundeb â deiliad y drwydded cwympo coed, neu gyflwyno hysbysiad dan ddarpariaethau newydd Deddf 1967. Mae'r cyfnod penodedig arfaethedig, sef 1 mis, yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol yn Neddf Coedwigaeth 1967 ("Deddf 1967") ar gyfer achos tebyg lle mae ceisiadau am drwyddedau cwympo coed yn ymwneud â choed sy'n destun TPO.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan bob un o'r ymatebwyr. Roedd 8 ohonynt yn cytuno â'r cyfnod penodedig arfaethedig; roedd 1 yn anghytuno.
Dyma'r pwyntiau allweddol a gyflwynwyd:

- Caiff y cyfnod dan sylw, sef 1 mis, ei ymestyn eisoes o dro i dro yn sgil ceisiadau am eglurhad neu gan fod CNC yn derbyn ymatebion hwyr; mae angen cael torbwynt llym er mwyn osgoi amharu ar waith cwympo coed (2 ymatebydd).

- Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i ymateb o fewn 1 mis/4 wythnos (2 ymatebydd; roedd y ddau ohonynt yn cytuno â'r cyfnod arfaethedig, sef 1 mis).
- Awgrymwyd y gellid cynyddu'r cyfnod i 8 wythnos, yn unol â'r cyfnod ymateb ar gyfer ymgynghoriadau cyffredinol eraill gogyfer ceisiadau tebyg (2 ymatebydd arall; roedd y ddau ohonynt yn cytuno â'r cyfnod penodedig arfaethedig, sef 1 mis).
- Nid oedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cytuno bod 1 mis yn ddigon; rhestrwyd y camau ar gyfer ymateb, megis cais gan CNC; nodwyd y byddai 6 wythnos yn fwy dymunol.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>

Nodwyd y pryder ynglŷn â'r posibilrwydd nad oes gan rai awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i ymateb o fewn y cyfnod penodedig arfaethedig, sef 1 mis. Y llynedd, roedd ceisiadau ar gyfer awdurdodau TPO yn cyfateb i oddeutu 3% o geisiadau am drwyddedau cwympo coed. Yn ôl pob tebyg, bydd ceisiadau gan CNC dan y pwerau newydd yn llai fyth, felly go brin y bydd baich trwm yn cael ei roi ar ysgwyddau awdurdodau TPO. Rhaid pwyso a mesur y syniad o ymestyn y cyfnod penodedig i 6 neu 8 wythnos yn erbyn yr oedi cyn gallu diwygio trwyddedau cwympo coed a'r effaith gysylltiedig ar waith cwympo coed.

Mae CNC eisoes yn ymrwymo i ddiwygio trwyddedau mewn cyfundrefnau rheoleiddio eraill o fewn cyfnod o 60 diwrnod. Aethpwyd ati i drafod y posibilrwydd o ymestyn y cyfnod hwn ar gyfer y gyfundrefn trwyddedau cwympo coed gyda'r grŵp rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda CNC ar ei ganllawiau allanol ar weithredu'r darpariaethau newydd yn Neddf 1967. Trwy ymestyn y cyfnod penodedig ar gyfer awdurdodau lleol, byddai'n anodd cyflawni'r ymrwymiad '60 diwrnod' hwn. Hefyd, mae yna lawer i'w ddweud dros sicrhau cysondeb â Deddf 1967.

O ystyried y pwyntiau uchod, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu bod yn rhaid i awdurdodau TPO ymateb i hysbysiad CNC yn ysgrifenedig o fewn 1 mis os ydynt yn dymuno cyflwyno gwrthwynebiad. Mae hyn yn berthnasol i ddwy adran newydd Deddf 1967, sef 10A(3) a 24F(4), a fewnosodir yn rhinwedd adrannau 38 a 40 o Ddeddf 2023.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r dull penodedig ac y dylai'r cyfnod penodedig fod yn 3 mis gydag estyniad pan mae hysbysiad yn ymwneud ag ataliad? Os na, pa ddull neu gyfnod penodedig ydych chi'n teimlo sy'n addas a pham?**

Mae a wnelo hyn â'r cyfnod penodedig a'r dull penodedig ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir dan y diwygiadau i Ddeddf 1967. Mae'r cyfnod a'r dull penodedig yn adlewyrchu darpariaethau presennol yn Neddf 1967, gyda chynnig yn ymwneud â hysbysiadau i atal trwyddedau, fel y bydd cyfnodau penodedig o'r fath yn ymestyn dros holl gyfnod yr ataliad. Y bwriad yw rhoi hawl i unigolion apelio i godi'r ataliad yn gynnar, a allai ddigwydd ar ôl y cyfnod penodedig cyntaf (sef 3 mis).

Atebwyd y cwestiwn hwn gan chwe ymatebydd o blith y 9. Roedd pump o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfnod penodedig; dywedodd y gweddill nad oedd y mater

yn uniongyrchol berthnasol i'w sefydliad. Cyfeiriodd dau ymatebydd at ymestyn y cyfnod penodedig mewn perthynas â hysbysiadau atal – roedd un yn cytuno, a gofynnodd y llall am eglurhad pellach. Roedd un ymatebydd yn cefnogi'r dull penodedig; ni wnaeth yr ymatebwyr eraill sôn amdano na'i wrthwynebu.

Dywedodd Confor fod angen sicrhau bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r broses apelio, o ran yr amserlen apelio, y broses a'r dystiolaeth angenrheidiol. Hefyd, rhaid cyflymu'r amserlen apelio er mwyn lleihau'r gost/effaith ar waith cwympo coed.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodwyd y sylwadau cadarnhaol a'r gefnogaeth ar gyfer y cyfnod penodedig a'r dull penodedig arfaethedig. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r cyfnod penodedig a'r dull penodedig yn unol â'r cynnig.

Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, pan fo hysbysiad yn ymwneud â hysbysiad atal, bydd y cyfnod penodedig yn para cyhyd â'r cyfnod atal. Yna, bydd modd i'r sawl a gafodd hysbysiad o'r fath apelio i gael codi'r ataliad ynghynt na'r cyfnod a nodir yn yr hysbysiad, a allai fod yn hwy na'r cyfnod penodedig ar gyfer apelio (sef 3 mis). Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi'r sylwadau ynglŷn â'r angen am ragor o wybodaeth ynghylch y broses apelio.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r dull penodedig ac y dylai'r cyfnod penodedig fod yn 3 mis? Os na, pa ddull neu gyfnod penodedig ydych chi'n teimlo sy'n addas a pham?**

Mae a wnelo hyn â'r cyfnod penodedig a'r dull penodedig ar gyfer hawlio iawndal. Y cyfnod penodedig arfaethedig yw 3 mis o'r dyddiad yr anfonir penderfyniad y Gweinidog at yr apelydd yn cadarnhau apêl lwyddiannus. Y dull penodedig yw trwy gyflwyno ffurflen hawlio i CNC.

Atebwyd y cwestiwn hwn gan chwech o ymatebwyr. Roedd pedwar ohonynt yn cytuno; roedd dau ohonynt (Confor a'r Sefydliad Coedwigwyr Siartredig (ICF)) yn anghytuno â'r cyfnod penodedig. Yn achos un ymatebydd a oedd yn cytuno, aeth yn ei flaen i dynnu sylw at un peth, sef: er bod y cyfnod penodedig arfaethedig yn rhesymol yr olwg, rhaid ystyried pethau'n ofalus er mwyn gallu cyfrifo'r iawndal.

Dyma'r pwyntiau allweddol a gyflwynwyd gan Confor a'r ICF:

- Nid yw'n glir pa effaith a gaiff rhwystrau (megis hysbysiad i ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwympo coed) ar waith cwympo coed – o ran arwain at oedi.
- Gallai gymryd 12 mis cyn y gellir ailddechrau a chwblhau gwaith cwympo coed, oherwydd gallai unrhyw oedi arwain at golli neu ohirio'r cyfnod cwympo ac efallai y byddai'n rhaid aros tan y cyfnod nesaf.
- Dim ond ar ôl ailddechrau a chwblhau'r gwaith cwympo coed y gellir gweld gwir faint y costau i lywio unrhyw iawndal.
- Efallai y bydd unrhyw oedi yn effeithio ar hyfywedd y gwaith cwympo e.e. pan fo gwerth masnachol yn perthyn i'r drwydded cwympo coed a phan allai'r gwerth masnachol hwnnw gael ei danseilio os na ellir dibynnu ar y drwydded.

- Dylid gallu cyflwyno hawliad am hyd at 3 mis ar ôl cwblhau'r gwaith cwympo coed yn yr ardal sy'n destun i unrhyw apêl lwyddiannus.
- Argymhellir y dylid cael cyfnod hawlio o hyd at 12 mis o ddyddiad unrhyw apêl lwyddiannus.
- Argymhellir bod angen eglurhad pellach i gyfiawnhau faint o iawndal a delir ac ym mha sefyllfaoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nodir y sylwadau a'r pwyntiau hyn a chânt eu croesawu fel cyfraniad gwerthfawr at y diwygiadau i Reoliadau 1979. Mae Gweinidogion Cymru yn cytuno bod angen cyfnod penodedig hwy. Byddant yn pennu cyfnod o 18 mis, a bydd y cyfnod hwn yn dechrau drannoeth y diwrnod yr anfonir hysbysiad y Gweinidog at yr apelydd yn nodi bod yr apêl wedi bod yn llwyddiannus. Bydd hyn yn rhoi hyd at 12 mis i ailddechrau a chwblhau'r gwaith cwympo coed yr effeithiodd yr hysbysiad arno, ynghyd ag amser ychwanegol ar gyfer unrhyw oedi posibl cyn ailddechrau'r gwaith ac amser i goladu tystiolaeth o'r costau ar gyfer hawlio iawndal. Ni chynigir y bydd y rheoliadau'n hollti'r cyfnod yn y ffordd hon – yn syml, nodir cyfnod o 18 mis. Bydd y dull penodedig yn cyd-fynd â'r cynnig, sef cyflwyno ffurflen hawlio i CNC.

Hefyd, mae Gweinidogion Cymru yn nodi'r angen am ganllawiau clir yn ymwneud â'r broses hawlio iawndal a bydd yn ystyried hyn gyda CNC.

**Cwestiwn 4: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y newidiadau ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 5: Yn eich barn chi, a oes modd llunio'r gwelliannau neu eu newid: - fel eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; neu - er mwyn lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?**

Atebwyd cwestiwn 4 gan bedwar o ymatebwyr. Yn ôl dau ymatebydd, dylid llunio'r dogfennau cysylltiedig yn ddwyieithog; roedd ymatebydd arall yn ansicr ynglŷn â'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg. Crybwyllodd Confor bryderon y byddai'r diwygiadau i Ddeddf 1967, a wnaed gan Ddeddf 2023, yn cael effaith fawr ar reoli coetiroedd (h.y. y byddent yn arwain at ddirywiad), yn enwedig mewn perthynas â choetiroedd bach. Byddai'r dirywiad hwn yn peri bod llai o swyddi ar gael i weithwyr coedwigaeth – llawer ohonynt yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Hefyd, dywedodd Confor nad oes unrhyw gyfleoedd ar gael i liniaru'r effaith hon.

Atebwyd cwestiwn 5 gan ddau o ymatebwyr. Yn ôl un ymatebydd, dylid llunio'r dogfennau'n ddwyieithog; dywedodd ymatebydd arall nad oes unrhyw ffordd y gellir newid y diwygiadau i Reoliadau 1979 er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg neu liniaru'r effaith ar yr iaith.

Ymatebion Llywodraeth Cymru

Bydd yr holl ddogfennau cysylltiedig yn cael eu llunio'n ddwyieithog, yn unol ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i'r Gymraeg.

Nodwyd y pryder uchod ynglŷn â swyddi coedwigaeth. Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi canllawiau anstatudol, sef "Egwyddorion Gweithredu", i CNC lle pennir sut disgwyliant i CNC ddefnyddio'r pwerau newydd a fydd yn deillio o ddiwygio Deddf 1967. Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod y byddai gorddefnyddio'r pwerau newydd mewn modd a allai effeithio ar reoli coetiroedd yn arwain at effaith andwyol ar amcanion Llywodraeth Cymru – sef sicrhau y caiff ychwaneg o goetiroedd eu rheoli. Mae'r canllawiau anstatudol yn pwysleisio y dylai CNC ddefnyddio'r pwerau newydd mewn modd priodol, cymesur a rhesymol, ac y dylid cyfiawnhau'r defnydd a wneir ohonynt yn llwyr. Mae'r canllawiau hyn yn sail ar gyfer datblygu canllawiau allanol ar y modd y bydd CNC yn defnyddio'r pwerau.

Mae CNC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i lunio canllawiau allanol clir ar y modd y bydd y pwerau'n cael eu rhoi ar waith. Caiff y canllawiau hyn eu seilio ar yr Egwyddorion a bennir yng nghanllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae CNC yn llunio canllawiau mewnol er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r pwerau newydd yn darparu ar gyfer proses apelio gyda hawl i iawndal pan fo'r apêl yn llwyddiannus. Bydd yr hawl hon i apelio a chael iawndal posibl, ynghyd â'r ffaith y bydd CNC yn cydymffurfio ac egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus, cod y rheoleiddiwr ac Egwyddorion Rheoleiddio CNC ei hun, yn sicrhau y caiff y pwerau newydd eu defnyddio'n gymesur, ac y gellir llwyr gyfiawnhau'r defnydd a wneir ohonynt.

**Cwestiwn 6: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.**

Cyflwynodd pedwar o ymatebwyr wybodaeth ar gyfer y cwestiwn hwn.

Roedd a wnelo'r ymgynghoriad hwn â'r newidiadau gweithdrefnol y mae angen eu cyflwyno i Reoliadau 1979 er mwyn i'r diwygiadau i Ddeddf 1967 allu gweithredu. Fodd bynnag, roedd llawer o'r pwyntiau a grybwyllwyd yn canolbwyntio ar y diwygiadau i Ddeddf 1967. Caiff y rhain eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru.

- Mae'r broses a ddefnyddir gan CNC i ymgynghori ag awdurdodau lleol ynglŷn â materion coedwigaeth wedi gwella'n fawr – mae hyn yn rhywbeth y dylid ei groesawu. Dyma bwyntiau eraill ar gyfer gwella'r broses: creu cysylltiad uniongyrchol rhwng CNC ac awdurdodau lleol ar gyfer trafod ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed a thrwyddedau cwympo coed; ac ystyried cynnal cyfarfodydd rhwng CNC a swyddogion coed awdurdodau lleol er mwyn hwyluso cyfathrebu a gwella dealltwriaeth o'r prosesau ar y ddwy ochr.

  Ymateb – Rydym wedi trosglwyddo'r sylwadau a'r awgrymiadau uchod ynghylch gwella cyfathrebu'n barhaus gydag awdurdodau i ddwylo CNC.

- Amheuir y sail resymegol dros gyflwyno pwerau i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed a chredir y bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith negyddol ar yr economi a'r amgylchedd. Mae angen tystiolaeth o'r materion er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector y bydd y rheoleiddiwr yn gweithredu mewn modd teg.

  Ymateb – Nodir y sail resymegol dros y diwygiadau i Ddeddf 1967 yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf 2023 at dudalennau 65-79 – gweler agriculture-wales-act-2023-explanatory-memorandum.pdf (gov.wales). Yma, pennir y materion y bydd y diwygiadau i Ddeddf 1967 yn ymdrin â nhw.

- Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r dull o ymdrin â newidiadau i Ddeddf 1967, yn cynnwys y cynigion i lunio Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023. Dylid ymgynghori'n fanwl â'r sector er mwyn sicrhau y bydd y diwygiadau'n cyflawni ar sail anghenion ac yn ategu datblygiadau yn y sector amaethyddol.

- Nid yw'n glir a aethpwyd ati i geisio cyfraniad proffesiynol wrth ddatblygu'r diwygiadau arfaethedig i Ddeddf 1967. Mae angen cynnal ychwaneg o drafodaethau ynghylch y modd y rhoddir y pwerau newydd ar waith yn ymarferol.

  Ymateb – Fe wnaethom ymgynghori ynglŷn â'r diwygiadau arfaethedig i Ddeddf 1967 fel rhan o'r Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) a gynhaliwyd rhwng 16 Rhagfyr 2020 a 25 Mawrth 2021. Wrth eu datblygu wedi hynny, ymgysylltwyd â chynrychiolwyr rhanddeiliaid o blith y sectorau coedwigaeth, tir a chadwraeth, a chafwyd cyfraniad gwerthfawr ganddynt. Hefyd, fe wnaeth y grŵp rhanddeiliaid hwn gyfrannu at, a chraffu ar, y dadansoddiad cost a budd a oedd yn rhan o Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf 2023. Mae'r grŵp rhanddeiliaid hwn yn parhau i ymgysylltu â CNC wrth i'r corff hwnnw lunio'i ganllawiau allanol ar y modd y bydd y pwerau newydd yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r gwaith hwn yn dal i fod ar y gweill.

- Ceir pryderon ynglŷn â'r amser annigonol ar gyfer llunio dogfennau ac ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid – mae'r cyfnodau ymgynghori'n fyr ac nid yw'r mater yn amlwg iawn i randdeiliaid.

  Ymateb – O angenrheidrwydd, rhaid bwrw ymlaen yn gyflym â'r gwaith ar y pwerau newydd er mwyn sicrhau y bydd y dogfennau a'r prosesau mewn lle pan ddaw'r pwerau newydd i rym yn 2024. Sylweddolwn fod hyn yn rhoi pwysau ar randdeiliaid i ymateb. Rydym yn gwerthfawrogi eu hamynedd ac yn mawrbrisio eu cyfraniad.

- Dymunir ailadrodd yr argymhelliad y dylid gohirio'r pwerau newydd tan ar ôl 30 Mawrth 2023.

  Ymateb – Mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y byddant yn gohirio'r pwerau newydd tan 1 Ebrill 2024.

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus sut bydd hysbysiadau'n cael eu cyflwyno. Byddai'r ICF yn croesawu trafodaeth ynglŷn â hyn.

- Mae angen eglurhad ynglŷn â sut bydd prynwyr yn cael eu hysbysu ynghylch torri rheolau trwyddedau cwympo coed.

  Ymateb – Mae cyflwyno hysbysiadau ac egluro sut i gael gafael ar wybodaeth ynglŷn â thorri trwyddedau cwympo coed yn faterion ymarferol, a dylent fod yn rhan o'r canllawiau allanol a ddatblygir gan CNC ar hyn o bryd. Gall CNC a'r grŵp rhanddeiliaid – sef grŵp mae'r ICF yn aelod ohono – drafod y materion hyn.

- Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno tystiolaeth ynglŷn â gwelliannau mesuradwy a ddaw i ran bioamrywiaeth o ganlyniad i'r newidiadau a gyflwynir i Ddeddf 1967.

  Ymateb – Disgwylir y daw ychwaneg o fuddion i ran bioamrywiaeth a'r amgylchedd yn sgil y ddarpariaeth i ychwanegu amodau amgylcheddol, oherwydd y nod yw lleihau niwed amgylcheddol ac amddiffyn bywyd gwyllt i raddau mwy. Fodd bynnag, mae'r buddion hyn yn anodd eu mesur a'u cyfleu mewn termau ariannol, o gofio natur amrywiol trwyddedau cwympo coed (amlder, graddfa ac amodau ar safleoedd unigol). Cynigir y bydd data perthnasol yn cael ei gasglu fel y gellir monitro'r buddion fel rhan o adolygiad a gynhelir ar ôl rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith.

- Byddai'r ICF yn croesawu rhagor o ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a CNC ynglŷn â'r darpariaethau newydd yn Neddf 1967. Cynigir y dylid sefydlu grŵp cynghori a fydd yn cynnwys aelodau o ICF Cymru.

  Ymateb – Rydym yn croesawu parodrwydd yr ICF i barhau i ymgysylltu â ni a CNC ynglŷn â'r gwaith parhaus o ddatblygu'r pwerau newydd a'r prosesau cysylltiedig.

## Y Camau Nesaf

Mae'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn wedi cyfrannu'n fawr at y broses ac adlewyrchir hyn yn ymatebion Llywodraeth Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y pwyntiau hyn wrth fynd ati i lunio'r diwygiadau i Reoliadau 1979 trwy gyfrwng Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023.

Dymuna Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn.